**Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad:**
**Newidiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i Blant hyd at 12 oed**

| | | |
|---|---|---|
| Eich enw: | Martin King-Sheard | |
| Eich cyfeiriad: | Tŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd, CF10 3AF | |
| E-bost: | martin@play.wales | |
| Rhif ffôn: | 029 2048 6050 | |
| Eich sefydliad (os yn berthnasol): | **Play Wales \| Chwarae Cymru** | |
| Nodwch pa grŵp rydych chi'n uniaethu ag ef: | x | Corff cynrychioli |
| | | Darparwr |
| | | Rhiant/ gofalwr |
| | | Aelod o'r cyhoedd |
| | | Awdurdod Lleol |
| | | Arall (nodwch beth) |
| Ydych chi'n hapus i Lywodraeth Cymru gyhoeddi eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llawn? | x | Ydw |
| | | Nac ydw |
| Ydych chi'n hapus i Lywodraeth Cymru gyhoeddi eich enw a'ch cyfeiriad (neu ran ohono), neu enw a chyfeiriad y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb? | x | Ydw |
| | | Nac ydw |
| Cwblhewch y ffurflen ymateb hon erbyn **dydd Mercher 10 Rhagfyr 2025** a'i hanfon drwy e-bost at **gofalplantachwarae@llyw.cymru** neu ei phostio i:<br>Yr Is-adran Blynyddoedd Cynnar,<br>Gofal Plant a Chwarae Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd, CF10 3NQ | | |

Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu grwpiau ffocws i hyrwyddo trafodaethau ar yr ymgynghoriad hwn. Rhowch wybod a ydych wedi cymryd rhan yn un o'r sesiynau hyn yn ogystal â llenwi'r ffurflen hon.

| | |
|---|---|
| **Ydw, Rwy hefyd wedi cymryd rhan mewn sesiwn grŵp ffocws ar yr ymgynghoriad hwn** | **x** |

| | |
|---|---|
| **Nac ydw, Rwy heb gymryd rhan mewn sesiwn grŵp ffocws ar yr ymgynghoriad hwn** | |

**Cwestiynau ynghylch y Newidiadau Arfaethedig**

Rydym am glywed eich barn ynghylch a ydych yn cytuno â fformat newydd arfaethedig y Safonau.

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y fformat yn yr enghraifft a ddarperir yn glir?

| **Cytuno** | **X** | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Esboniwch eich ateb:**<br><br>Ydi, mae fformat yr enghraifft o'r safon yn ddefnyddiol. Mae ei gysylltu gyda llais y plentyn yn helpu gyda gwneud synnwyr o'r safon yn gyffredinol (os ydynt wedi eu geirio'n briodol). Efallai bod arlliwiau yn y safonau mynediad agored sydd angen trafodaeth ynghylch llais y plentyn.<br><br>Mae'n gwneud synnwyr hefyd bod y safon yn cael ei chysylltu gyda lles, a bod llais y plentyn a'r deilliant lles yn dod cyn manylion y safonau eraill. | | | | | | | |

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod cynnwys y rheoliadau cysylltiedig yn y safonau o gymorth?

| **Cytuno** | **x** | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Esboniwch eich ateb:**<br><br>Mae cynnwys y rheoliadau'n helpu gyda chyfeirio atynt ac mae'n cynnig cyd-destun defnyddiol ychwanegol i'r safonau. | | | | | | | |

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei bod o gymorth cynnwys dolenni i ddogfennau ym mhob safon sy'n helpu i wella ansawdd?

| **Cytuno** | **x** | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Esboniwch eich ateb:** | | | | | | | |

| |
|---|
| Mae'r adran arweiniad a chymorth pellach yn ddefnyddiol a dylai helpu lleoliadau i gael hyd i wybodaeth berthnasol. Ar gyfer y safonau hynny sy'n ymwneud â chwarae a gwaith chwarae, mae'n bosibl y byddai'n werth cysylltu hefyd i'r adnoddau ar ein gwefan yn cynnwys y Marc Safon, Chwarae o Safon: www.chwarae.cymru |

- Rydym am glywed eich barn ynghylch diweddariadau i'r bennod "Beth rydym yn ei olygu wrth Ddarpariaeth o Ansawdd Uchel" yn y Safonau.

Commented [A1]: Hyperlink TO SUPPORTING DOC - what do we mean by high quality provision

**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylem ddiweddaru pennod 'Beth rydym yn ei olygu wrth Ddarpariaeth o Ansawdd Uchel' yn y Safonau er mwyn cyd-fynd yn well ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar?

| **Cytuno** | **X** | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Esboniwch eich ateb:**<br><br>Rydym yn cytuno y byddai hyn o gymorth i'r sector, yn enwedig i'r bobl hynny y mae eu gwaith yn alinio'n agos gydag ECPLC. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu hefyd y dylid cyfeirio at gynlluniau sicrhau ansawdd eraill a ddatblygwyd neu a gymeradwyir gan y sector, megis Chwarae o Safon, fel y gwnaed gyda'r Safonau Mynediad Agored cyntaf ble y cyfeiriwyd at *Yr Hawl Cyntaf … fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae*: https://chwarae.cymru/gwaith-chwarae/sicrhau-ansawdd/ | | | | | | | |

Er mwyn helpu i lywio datblygiadau polisi i'r dyfodol a'n hymrwymiad parhaus i'r weledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, byddem yn gwerthfawrogi eich ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

**Cwestiynau Ymgysylltu**

**Cwestiwn Ymgysylltu A:** Pa newidiadau pellach hoffech chi eu gweld o fewn canllawiau statudol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i gefnogi gweledigaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ?

Commented [A2]: Hyperlink to supporting doc

| |
|---|
| **Sylwadau ategol:**<br><br>Fe wyddom o adborth a dderbyniwn, pan fydd gweithwyr sy'n ymwneud â darpariaeth ECPLC yn ymgymryd â hyfforddiant neu gymwysterau gwaith chwarae, ei fod o fudd i'w hymarfer. Byddem yn croesawu trafodaeth ynghylch arweiniad ychwanegol sy'n cysylltu'r agwedd gwaith chwarae, wedi eu hategu gan |

| |
|---|
| Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, gydag egwyddorion craidd ECPLC (oedolion sy'n galluogi dysgu, amgylcheddau effeithiol a phrofiadau sy'n ennyn diddordeb). |

**Cwestiwn Ymgysylltu B:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r bennod ar 'Beth rydym yn ei olygu wrth Ddarpariaeth o Ansawdd Uchel'?

| |
|---|
| **Sylwadau ategol:**<br><br>Byddem yn awgrymu ei bod yn cyfeirio at 'safonau gofynnol', yn hytrach na 'lleiafswm y gofynion neu ofynion sylfaenol' – er cysondeb iaith.<br><br>Gellir atgyfnerthu'r cyfeiriad at 'welliant parhaus' trwy gynnwys ambell ddatganiad disgrifiadol. Mewn rhai achosion, ni fydd gwelliant parhaus yn bosibl, ac efallai y bydd hyn oherwydd nifer o wahanol ffactorau, yn cynnwys: symudiad staff, ffactorau diwylliannol neu gymdeithasol ac ariannu. Byddai cyfeiriad at gynnal safon a gweithio'n rhagweithiol i ddynodi camau gweithredu i osgoi dirywiad mewn ansawdd yn delio gyda hyn. |

- Rydym am glywed eich barn ynghylch a ydych chi'n cytuno â'r newid arfaethedig i'r diffiniad o chwarae mynediad agored.

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r diweddariad i'r diffiniad o Chwarae Mynediad Agored?

| **Cytuno** | x | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Esboniwch eich ateb:**<br><br>Mae hwn wedi ei ddatblygu mewn ymgynghoriad gyda Chwarae Cymru, Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) a rhwydweithiau sector eraill. Rydym yn credu bod y diffiniad diwygiedig yn adlewyrchu'n well y cyd-destun cyfredol ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored. | | | | | | | |

Wrth ddiweddaru'r diffiniadau, ac fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod y Safonau yn addas i'w diben, rydym hefyd wedi ystyried datblygu rhai enghreifftiau o fathau o sectorau y gellid eu hychwanegu at y Safonau i gefnogi'r diffiniadau.

**Cwestiynau Ymgysylltu**

Rydym am glywed eich barn ynghylch a yw o gymorth datblygu enghreifftiau i helpu i ddiffinio darpariaeth gofal dydd.

**Cwestiwn Ymgysylltu C**: Ydych chi'n meddwl y byddai ychwanegu enghreifftiau o fathau o ddarpariaeth o fewn diffiniadau pob un o is-gategorïau gofal dydd o gymorth?

| | |
|---|---|
| **Ydw** | **X**<br><br>Ar y sail bod yr enghreifftiau'n cael eu datblygu gyda lleoliadau ac arbenigwyr o'r priod sector. |
| **Nac ydw** | |

**Cwestiwn 6:** O ran Hyfforddiant Cymorth Cyntaf - Chwarae Mynediad Agored (Safon 10), rydym yn cynnig y byddai'n fwy cymesur ei gwneud yn ofynnol i o leiaf un person sydd â chymhwyster cymorth cyntaf llawn fod ar y safle bob amser, a bod trefniadau wrth gefn ar gyfer cymwysterau cymorth cyntaf staff ychwanegol, gan weithredu yn ôl risg y mathau o weithgareddau yr ymgymerir â nhw. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?

| **Cytuno** | **X** | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Esboniwch eich ateb:**<br><br>Ydw, mae hyn yn adlewyrchu'n well yr agwedd wreiddiol yn yr NMS mynediad agored gwreiddiol a'r cyd-destun cyfredol ar gyfer mynediad agored. Yn enwedig ar gyfer darpariaeth dymhorol. | | | | | | | |

**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau a gynigir ar gyfer dull gweithredu cymesur o ran Safon 13: Person addas Staff Eraill (Cymwysterau) ar gyfer Chwarae Mynediad Agored?

| **Cytuno** | **x** | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Esboniwch eich ateb:**<br><br>Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'n well yr adborth a dderbyniwyd gan y sector gwaith chwarae mynediad agored dros y deg mlynedd diwethaf ac mae'r newid yn un i'w groesawu. Ynghyd â rhai o'r newidiadau eraill a gynigir, gobeithiwn y bydd | | | | | | | |

| |
|---|
| hyn yn cefnogi mwy o leoliadau mynediad agored i gofrestru yn y blynyddoedd i ddod. |

- Rydym am glywed eich barn ynghylch a ydych yn cytuno â’r newidiadau arfaethedig i Safon 11.

**Cwestiwn 8:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau i Safon 11: Meddyginiaeth i nodi'r gwahaniaeth rhwng meddyginiaeth ar bresgripsiwn a meddyginiaeth heb bresgripsiwn?

| **Cytuno** | **x** | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Esboniwch eich ateb:**<br><br>Mae’n ymddangos bod y newidiadau a gynigir yn datrys unrhyw amwysedd ac yn sicrhau bod rhieni’n cael eu hysbysu am weithdrefnau rhoi moddion, yn enwedig o ran argyfyngau meddygol. | | | | | | | |

**Cwestiwn Ymgysylltu**

Rydym am glywed eich barn ynghylch a yw o gymorth datblygu Atodiad ychwanegol i'r Safonau i ddarparu arweiniad a chymorth pellach pan fydd plant yn mynd yn sâl yng ngofal lleoliad.

**Cwestiwn Ymgysylltu D –** Ydych chi'n meddwl bod yr Atodiad yn y Safonau - Canllawiau ar gyfer gweinyddu parasetamol hylifol pan fydd plant yn mynd yn sâl mewn lleoliad - yn helpu i esbonio beth y gall y lleoliad ei wneud ac na all ei wneud mewn perthynas â gweinyddu parasetamol hylifol yn y sefyllfaoedd a ddisgrifir?

Commented [A3]: Hyperlink to document

| **Ydw** | **x** |
|---|---|
| **Nac ydw** | |
| **Esboniwch eich ateb:**<br><br>Mae’r Atodiad yn glir a dylai helpu lleoliadau i ddeall pryd y gallant ac na allant roi parasetamol hylifol. | |

- Rydym am glywed eich barn ynghylch a ydych yn cytuno â’r newidiadau arfaethedig i Safon 13.

**Cwestiwn 9:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ag ychwanegu'r canlynol at Safon 13 (GD): Person addas (Gofal Dydd)?

Safon newydd:  Bod canrannau staff cymwysedig a staff heb gymhwyso yn cael eu cyfrifo ar sail y lleoliad cyfan, yn hytrach nag ar sail ystafell. Yr ystyrir yn ofalus sut caiff staff eu dosrannu ar draws y lleoliad **ac** ym mhob ystafell i sicrhau diogelwch, lles a datblygiad y plant bob amser, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol a'r rhai sy'n anabl.

| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Esboniwch eich ateb:**<br><br>Nid ydym wedi ymateb i’r cwestiwn hwn gan ei fod y tu hwnt i gylch gorchwyl Chwarae Cymru. | | | | | | | |

**Cwestiwn 10:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ag ychwanegu'r canlynol at Safon 13 (GD): Person addas (Gofal Dydd):

Safon newydd: Efallai, yn dibynnu ar lefelau staffio unigol pob lleoliad, bod mwy o staff yn cael eu lleoli lle nodir yr angen am gymorth penodol i helpu i ddiwallu anghenion unigol plant. Bod cymarebau oedolion: plant gofynnol yn cael eu gwarchod o hyd.  Nad yw unrhyw aelod o staff a gyflogir i weithio gyda phlant penodol i ddarparu cymorth ychwanegol yn cael ei gyfrif o fewn y cymarebau staffio safonol.

| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Esboniwch eich ateb:**<br><br>Nid ydym wedi ymateb i’r cwestiwn hwn gan ei fod y tu hwnt i gylch gorchwyl Chwarae Cymru. | | | | | | | |

- Rydym am glywed eich barn ynghylch a ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i **Safon 13: Person addas (GP)**.

**Cwestiwn 11:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gellid cyflogi cynorthwywyr gwarchodwyr plant os ydynt yn gweithio tuag at ennill cymhwyster cynorthwy-ydd, os na chânt eu gadael gyda phlant heb eu goruchwylio yn ystod y cyfnod hwn, ac os cwblhant y cymhwyster o fewn 6 mis?

| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | yn anghytuno | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Esboniwch eich ateb:**

Nid ydym wedi ymateb i'r cwestiwn hwn gan ei fod y tu hwnt i gylch gorchwyl Chwarae Cymru.

**Cwestiwn 12:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gellid gadael cynorthwywyr gwarchodwyr plant ar eu pen eu hunain gyda phlant, yn unol â'r cymarebau staffio oedolion: plant, am hyd at ddwy awr y dydd i gyd os cydymffurfir â holl ofynion y canllawiau yn Atodiad A a Safon 13?

| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Esboniwch eich ateb:**

Nid ydym wedi ymateb i'r cwestiwn hwn gan ei fod y tu hwnt i gylch gorchwyl Chwarae Cymru.

Rydym am glywed eich barn ynghylch a ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Safon 15.

**Cwestiwn 13: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol:**

Y nifer fwyaf o blant y caiff gwarchodwr plant ofalu amdanynt yw:

- 10 o blant hyd at 12 oed;
- O'r 10 plentyn hynny, ni all mwy na chwech fod o dan wyth oed.
- O'r chwe phlentyn hynny, ni all mwy na phedwar fod o dan 5 oed.
- O'r pedwar plentyn hynny, ni chaiff mwy na thri fod o dan 2 oed*.
- O'r tri phlentyn hynny, ni chaiff mwy na dau fod o dan 18 mis oed fel arfer, er bod eithriadau'n bosibl yn achos brodyr a chwiorydd.

| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Esboniwch eich ateb:**<br><br>Nid ydym wedi ymateb i’r cwestiwn hwn gan ei fod y tu hwnt i gylch gorchwyl Chwarae Cymru. |
|---|

**Cwestiwn 14:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y *gallai plant sydd i fod i ddechrau addysg statudol amser llawn (blwyddyn dderbyn) ym mis Medi gael eu categoreiddio fel plant dros bump oed yn ystod gwyliau'r haf yn union cyn hyn at ddibenion y cymarebau sy'n berthnasol i warchodwyr plant?*

| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Esboniwch eich ateb:**<br><br>Nid ydym wedi ymateb i’r cwestiwn hwn gan ei fod y tu hwnt i gylch gorchwyl Chwarae Cymru. | | | | | | | |

**Cwestiwn 15:** *Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y* gallai plant rhwng tair a phump oed, sy'n mynychu darpariaeth addysg neu gyfuniad o ddarpariaeth addysg a gofal plant cofleidiol o fewn oriau ysgol mewn lleoliad arall am bum awr neu fwy y dydd, gael eu categoreiddio fel plant dros bump oed at ddibenion y cymarebau sy'n berthnasol i warchodwyr plant?

| **Cytuno** | | **Anghytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Ddim yn gwybod** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Esboniwch eich ateb:**<br><br>Nid ydym wedi ymateb i’r cwestiwn hwn gan ei fod y tu hwnt i gylch gorchwyl Chwarae Cymru. | | | | | | | |

**Cwestiynau Ymgysylltu**

- Rydym am glywed eich barn ynghylch unrhyw effaith debygol ar y Gymraeg.

**Cwestiwn Ymgysylltu E**: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y newidiadau arfaethedig i'r Safonau ar y Gymraeg?  Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

| | |
|---|---|
| **Ydw** | **X** |
| **Nac ydw** | |

**Esboniwch eich ateb:**

Byddai symud at NMS seiliedig ar HTML yn ei gwneud yn haws i gael mynediad i fersiynau dwyieithog trwy 'toglo' gan ddefnyddio'r botwm ar y wefan.

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

| | |
|---|---|
| **Ydw** | |
| **Nac ydw** | |

**Esboniwch eich ateb:**

**Cwestiwn Ymgysylltu F**: Yn eich barn chi, a ellid llunio neu addasu'r newidiadau arfaethedig i'r Safonau er mwyn:

- sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

| | |
|---|---|
| **Ydw** | |
| **Nac ydw** | |

**Esboniwch eich ateb:**

**Cwestiwn Ymgysylltu G**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol ar y Gymraeg. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, gallwch eu nodi yma:

**Sylwadau:**

- Rydym am glywed eich barn ynghylch p'un a ddylai Llywodraeth Cymru wneud diwygiadau eraill i'r safonau.

Yn yr Adolygiad, nodwyd bod recriwtio a chadw staff yn broblem ar draws y sector. Yn y fersiwn ddiwethaf o'r Safonau yn 2023, felly, diweddarwyd y gofynion o ran cymwysterau gofal plant ar gyfer darparwyr gofal dydd o dan Safon 13: Person addas (GD)) – i ganiatáu i 20% o staff lleoliadau gofal dydd llawn a 10% o staff lleoliadau sesiynol neu leoliadau chwarae mynediad agored sy'n gweithio tuag at gymhwyster gael eu cynnwys yng nghymarebau cymwysterau staff (gydag amodau).

**Cwestiwn Ymgysylltu H:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch gweithio tuag at y gofynion?

**Sylwadau ategol:**

Rydym yn gefnogol o fwy o hyblygrwydd yng nghyd-destun 'gweithio tuag at' gymwysterau. Fodd bynnag, gallai hyn beri penbleth i leoliadau mynediad agored yn enwedig o ystyried y newidiadau arfaethedig yng Nghwestiwn 7 ynghylch cymwysterau. Bellach, gall 50% o'r holl staff eraill fod heb gymhwyster ac mae 50% angen cymhwyster lefel 2. Nid yw'n glir sut y byddai'r 10% yma'n gweithio ar gyfer y 50% o staff sydd angen cymhwyster lefel 2. Mae'n annhebygol y byddai gan y rhan fwyaf o leoliadau ddigon o staff ar y safle er mwyn i'r 10% yma fod yn berson cyfan. Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i hyn.

- Mae penodau Asesiad Effaith Integredig wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad hwn; Adrannau 1 ac 8, Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg ac ar Hawliau Plant.

**Cwestiwn Ymgysylltu I:** Pa sylwadau, os o gwbl, sydd gennych ynghylch yr asesiadau effaith drafft, yn enwedig yr effeithiau ar blant, teuluoedd a'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys tystiolaeth y dylid ei hystyried yn eich barn chi)?

**Sylwadau ategol:**

**Cwestiwn Ymgysylltu J:** Mae Asesiad drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd wedi'i ddatblygu fel rhan o'r ymarfer hwn. I'n helpu ymhellach, a fyddech cystal ag ychwanegu unrhyw sylwadau ar unrhyw effeithiau rydych chi'n teimlo y gallai'r newidiadau eu cael ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys tystiolaeth y dylid ei hystyried yn eich barn chi)?

**Sylwadau ategol:**

**Cwestiwn Ymgysylltu K:** Oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ynghylch y Safonau?

| **Sylwadau ategol:**<br><br>Galwodd yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae am fod yn fwy cymesur o ran rheoleiddio ac arolygu. Rydym yn parhau i fod yn optimistaidd y bydd rhai o'r newidiadau arfaethedig yn helpu gyda hyn. Mae'r rhain yn newidiadau yr ydym wedi galw amdanynt dros y deg mlynedd diwethaf neu fwy. Mae'n bwysig pwysleisio'r gorgyffyrddiad pwysig a'r gydberthynas rhwng y newidiadau arfaethedig i'r NMS, y newidiadau i reoliadau'r Gorchymyn Eithriadau (sy'n profi i fod yn gymhleth iawn) a'r cynllun cymeradwyo arfaethedig. Yn ogystal â'r ymgynghoriadau hyn, mae ychwanegiad yr NMS pwrpasol ar gyfer gwaith chwarae mynediad agored a'r gallu i gofrestru lleoliadau lluosog o dan un cofrestriad unigol. Mae rhai o'r newidiadau hyn yn gymhleth iawn a chawn weld sut y byddant yn effeithio ar gofrestru lleoliadau ar gyfer gwaith chwarae mynediad agored a'r broses arolygu. Rydym yn awyddus i barhau i weithio gyda'r sector a Llywodraeth Cymru i fonitro hyn er mwyn gweithio tuag at yr uchelgais o agwedd fwy cymesur sy'n diogelu plant ac sy'n dal i sicrhau ansawdd. |
|---|

**Diolch am lenwi'r ffurflen hon.**